Capel

CYMDEITHAS TREFTADAETH Y CAPELI
THE CHAPELS HERITAGE SOCIETY

TAFLEN WYBODAETH RHIF 2: COFYSGRIFAU CAPELI

Pan geir bygythiad i gau capel, gall un weithred syml, nad yw'n costio llawer, ddiogelu cofnod o waith y capel a'r hyn a gynrychiolai; y peth i'w wneud yw cysylltu â'r archifdy sirol neu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn sicrhau bod y cofysgrifau yn cael eu diogelu'n iawn. Yn wir, dylai pob capel, hyd yn oed yr achosion mwyaf llewyrchus, gymryd y cam hwn i ddiogelu o leiaf eu cofysgrifau hynaf.

Ymhlith cofysgrifau y rhan fwyaf o gapeli fe geir rhai o'r mathau canlynol o ddogfennau: cofrestri bedyddiadau (neu enedigaethau), priodasau ac angladdau; cofrestri neu restri aelodau; adroddiadau blynyddol printiedig; cyfrifon; gweithredoedd a chofnodion cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr; cofnodion ysgolion Sul; gohebiaeth; cofnodion cymdeithasau cysylltiedig (megis cymdeithasau llenyddol, Gobeithlu etc); rhaglenni a thaflenni yn ymwneud â gweithgareddau'r capel; darluniau a ffotograffau. Bydd hanes y capeli, boed ar ffurf llawysgrif neu yn brintiedig, hefyd o ddiddordeb a dylid ei ddiogelu.

Mae llawer o gapeli wedi gosod eu cofysgrifau ar adnau yn eu harchifdy lleol neu yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r archifdai a'r Llyfrgell bob amser yn barod i dderbyn cofysgrifau capeli, a'u casglu os oes angen, neu gynnig cyngor ar y dulliau mwyaf addas o storio casgliadau o'r fath. Wrth gwrs, awdurdodau'r capeli fydd yn y pen draw yn penderfynu yngl n â'r sefydliad mwyaf addas ar gyfer cadw eu cofysgrifau. Ar y cyfan, mae'r archifyddion sirol a'r Llyfrgell Genedlaethol yn gytûn mai i'r archifdai lleol y dylai'r cofysgrifau fynd fel y gellir eu diogelu yn agos at yr adeiladau lle'r arferid eu cadw ac o fewn cyrraedd y cynulleidfaoedd a fu'n gyfrifol am eu creu. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru (y Methodistiaid Calfinaidd) wedi penderfynu er 1934 y dylid canoli archifau'r enwad yn y Llyfrgell Genedlaethol, a bod y Gynhadledd Fethodistaidd ym 1966 wedi datgan y dylai llyfrau cofnodion a chofysgrifau eraill eglwysi'r enwad gael eu gosod ar adnau yn yr archifdy lleol priodol. Cedwir casgliadau o gofysgrifau'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr ac enwadau eraill yn yr archifdai sirol ac yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Wedi i'r cofysgrifau gael eu derbyn i archifdy neu gan y Llyfrgell Genedlaethol fe'u rhestrir a byddant ar gael ar gyfer ymchwilwyr. Gellir trefnu i drwsio cyfrolau neu ddogfennau sydd wedi'u niweidio a bydd archifyddion yn barod iawn i gynorthwyo gydag arddangosfeydd lleol lle defnyddir cofysgrifau'r capeli sydd yn eu gofal. Cyfnewidir gwybodaeth am gofysgrifau capeli yn gyson rhwng yr archifdai a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Gyda phwy y dylid cysylltu

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn: 029 2057 3500, Ffacs: 029 2057 3490

Archifdy Caernarfon, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH. Ffôn: 01286 679095, Ffacs: 01286 679637, e-bost:: archives.caernarfon@gwynedd.gov.uk

Archifdy Ceredigion, Swyddfa'r Sir, Glan-y-môr, Aberystwyth SY23 2DE. Ffôn: 01970 633697, Ffacs: 01970 633663, e-bost: archives@ceredigion.gov.uk

Archifdy Gwent, [*ar gyfer Blaenau Gwent, rhan o Gaerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen*] Neuadd y Sir, Cwmbrân, Torfaen NP44 2XH. Ffôn: 01633 644886, Ffacs: 01633 648382, e-bost: gwent.records@torfaen.gov.uk

Archifdy Meirion, Ffordd y Bala, Dolgellau LL40 2YF. Ffôn:01341 424682, Ffacs: 01341 424683**,** e-bost: archives.dolgellau@gwynedd.gov.uk

Archifdy Morgannwg, [*ar gyfer Pen-y-bont, rhan o Gaerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda-Cynon-Taf a Bro Morgannwg*] Adeilad Morgannwg, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NE. Ffôn: 029 2078 0282, Ffacs: 029 2078 0284**.** e-bost:glamro@cardiff.ac.uk

Archifdy Sir Benfro, Y Castell, Hwlffordd SA61 2EF. Ffôn: 01437 768539, Ffacs 01437 768539, e-bost: Claire.Orr@Pembrokeshire.gov.uk

Archifdy Sir Ddinbych, 46 Heol Clwyd, Rhuthun LL15 1HP. Ffôn: 01824 708250, Ffacs: 01824 708258, e-bost: archives@denbighshire.gov.uk.

Archifdy Sir Fflint, Yr Hen Reithordy, Penarlâg CH5 3NR. Ffôn: 01244 532364, Ffacs: 01244 538344, e-bost: archives@flintshire.gov.uk

Archifdy Ynys Môn, Neuadd y Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Ffôn: 01248 752080, e-bost: archives@anglesey.gov.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Plas Crug Aberystwyth SY23 1NS. Ffôn: 01970 621200**,** Ffacs:01970 627701, e-bost: nmr.wales@rcahmw.org.uk

Gwasanaeth Archifau Conwy Yr Hen Ysgol Fwrdd, Clwyd Street, Llandudno LL30 2YG Ffôn/Ffacs: 01492 860882, e-bost: archifau.archives@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, [Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot] Neuadd y Sir, Fordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN. Ffôn: 01792 636589, Ffacs: 01792 637130, e-bost:westglam.archives@swansea.gov.uk.

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Caerfyrddin SA31 1DS. Ffôn: 01267 228232, Ffacs: 01267 228237

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam, Canolfan A.N.Palmer, Swyddfa'r Sir, Wrecsam LL11 1RB. Ffôn: 01978 317973, Ffacs: 01978 317982, e-bost: archives@wrexham.gov.uk

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU. Ffôn: 01970 632800, Ffacs: 01970 632883, e-bost: holi@llgc.org.uk,

Swyddfa Archifau Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod LD1 5LG. Ffôn: 01597 826088, Ffacs: 01597 827162, e-bost: archives@powys.gov.uk